



A ydych chi'n darparu gofal plant, addysg a chwarae i'r Blynyddoedd Cynnar?

Yna beth am ymuno â'r gyfundrefn aelodaeth fwyaf sy'n cefnogi'r sectorau y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru. Bydd y daflen hon yn rhoi i chi ddealltwriaeth o bwy ydym ni a sut y gall bod yn aelod o Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru fod o fudd i chi ac ansawdd y gofal yr ydych yn ei ddarparu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo manteision darpariaethau cyn-ysgol. Mae hwn yn amser cyffrous i fod yn gweithio yn y sector Gofal Plant.

Amdanom Ni

Roedd Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn rhan o'r Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol, a ddaeth i fod ym Mhrydain yn gynnar yn y 1960au, nes iddi ddod yn annibynnol yn 1987.

Mae Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn elusen genedlaethol ac yn gyfundrefn aelodaeth. Rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi gofal cyn-ysgol, addysg a dysgu yn ddwyieithog trwy chwarae, ar hyd a lled Cymru gyfan. Gwnawn hyn drwy gynnig cymorth ar **bob agwedd ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar**, yn cynnwys cofrestru, cefnogaeth i fusnesau, gwella ansawdd a datblygu'r gweithlu.

Ein nod yw sicrhau bod cyfleoedd chwarae digonol ar gael i blant cyn-ysgol, cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn helpu i hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol, ac i wneud yn siŵr fod teuluoedd yng Nghymru'n cael y cyfle i brofi gofal plant sydd o ansawdd da, yn fforddiadwy ac yn hygyrch. Rydym yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau y gall teuluoedd ledled Cymru gyrchu gofal plant sy'n fforddiadwy, o ansawdd da, ac sy'n darparu atebion arloesol er mwyn creu gofal plant sy'n hyblyg, a chyfleoedd chwarae a fydd yn bodloni anghenion rhieni a'u teuluoedd.


Pwy ydym ni

Ers 1961, rydym wedi bod yn ddarparwr mwyaf o wasanaethau aelodaeth cynhwysfawr i'r sector Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru. Credwn fod gan bob teulu yr hawl i gyfleoedd chwarae, addysg a gofal o safon uchel i helpu eu plant i gyrraedd eu potensial.

Yr hyn a wnawn

Mae CDC Cymru eisiau cefnogi pob plentyn cyn-ysgol, eu teuluoedd a darparwyr y Blynyddoedd Cynnar i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn draws Cymru trwy:

1. Cefnogi darparwyr blynyddoedd cynnar
2. Cefnogi teuluoedd i gymryd rhan mewn chwarae
3. Hyrwyddo gwaith CDC Cymru yn fras
4. Cyfrannu at weithredu polisi ar lefelau Cenedlaethol a Lleol
5. Datblygu Partneriaethau
6. Cynnal a datblygu llywodraethu a rheoli'r sefydliad
7. Recriwtio a datblygu staff a gwirfoddolwyr
8. Ceisio a rheoli arian i gynnal ac ehangu ein



Sut rydym yn helpu ein haelodau

- **Cymorth a Chanllawiau Mynediad** i gefnogaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar redeg lleoliad gofal plant gan staff profiadol yn ein swyddfeydd canolog a rhanbarthol ledled Cymru
- **Cyfleoedd rhwydweithio** yn ein fforymau aelodaeth
- **Rhybuddion rheolaidd** i'ch hysbysu â gwybodaeth bwysig, diweddiariadau a chyfleoedd gweithlu
- **Rydym yn eich cynrychioli** chi yn ein cysylltiadau rheolaidd ag Adrannau Llywodraeth Cymru ar bob agwedd ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, gan gynnwys y cyfnod sylfaen, y cynnig gofal 30 awr, rheoliadau, CIW, Gofal Cymdeithasol Cymru ac awdurdodau lleol
- **Tanysgrifiad** i'n cylchgrawn aelodaeth enwog iawn *small/talk*; gyda ffocws ar Gymru a'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys rhannu syniadau ac enghreifftiau o arfer da
- **Disgownt o 25%** ar gyhoeddiadau Saesneg a Chymraeg CDC Cymru a chynllun sicrhau ansawdd - Ansawdd i Bawb
- **Rhestr am ddim** o fanylion cyswllt a lleoliad eich lleoliad ar wefan PPA Cymru
- **Rhestr am ddim** o unrhyw swyddi gwag sy'n ymwneud â gofal plant ar wefan CDC Cymru a sianeli cyfryngau chymdeithasol
- **Mynediad** i yswiriant atebolrwydd cyhoeddus grŵp a gwasanaethau gostyngedig o Yswiriant Towergate
- **Mynediad** at gynllun llaeth rhad ac am ddim y llywodraeth - trwy Cool Milk